

# Buddion Cymunedol


## Ychwanegu gwerth yn y cymunedau

Bydd Renantis yn gweithio'n agos gyda chymunedau, busnesau a thrigolion lleol i sicrhau y bydd cynnig Fferm Solar Glyn Taf yn parhau i ddod â manteision gwirioneddol i'r ardal leol tra'n helpu i gyrraedd targedau newid hinsawdd cenedlaethol.

Ymrwymiad Renantis yw darparu gwerth ychwanegol yn y cymunedau lle mae'n gosod ei brosiectau trwy weithredu rhaglenni sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy lleol, trwy amrywiol fesurau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol, hyfforddi ac amgylcheddol.



## Mae buddion ehangach y datblygiad arfaethedig yn cynnwys;



Cynorthwyo Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn unol â thargedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a'r Argyfwng Hinsawdd a ddatganwyd



Gwneud cyfraniad pwysig at gyflawni targedau sero net sy'n ymrwymo'n gyfreithiol yn genedlaethol erbyn 2050



Mae'r prosiect ehangach yn rhoi cyfle i ffermwyr lleol arallgyfeirio eu gweithrediadau a sicrhau hyfywedd hirdymor eu fferm



Cyfleoedd ar gyfer cydberchnogaeth, gan sicrhau bod y cymunedau sy'n croesawu'r prosiect yn cadw'r budd o gynhyrchu ynni yn lleol



Budd net i fioamrywiaeth